**CYNLLUNIO**
**30ain MAI 2012**

**EITEM YCHWANEGOL**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO, ADFYWIO A GWASANAETHAU RHEOLEIDDIOL**

# PROSIECT SEILWAITH MAWR ESTYNIAD FFERM WYNT BURBO BANK

# YMATEB I YMGYNGHORIAD DAN ADRAN 42 DEDDF GYNLLUNIO 2008

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Cyfeirir Aelodau at yr eitem flaenorol ar yr agenda sy'n dwyn y teitl 'Prosiectau Seilwaith Mawr – Adroddiad Diweddaru' sy'n gosod allan y broses gynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith mawr.

1.2Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ei wahodd i ymateb i'r ymgynghoriad cyn-ymgeisio ar estyniad arfaethedig fferm wynt ar ymôr Burbo Bank yn unol ag Adran 42 Deddf Gynllunio 2008.

1.3 Mae'r adroddiad yma'n ceisio cymeradwyaeth gan Aelodau i gyflwyno'r ymateb i'r ymgynghoriad sy'n gorfod bod yn llaw'r datblygwr erbyn 5.00pm ar Fehefin 1af, 2012.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae DONG Energy yn cynnig datblygu estyniad i fferm wynt ar y môr Burbo Bank sydd eisoes yn weithredol ("y Prosiect). Mae'r Prosiect yn cynnwys ardal o 40 km sgwâr sydd wedi ei lleoli i'r gorllewin o'r fferm wynt ar y môr weithredol bresennol o fewn Bae Lerpwl. Mae Atodiad 1 yn dangos y cynllun safle dangosol.

2.2 Byddai'r Prosiect yn cynnwys uchafswm o 75 o dyrbinau gyda'r uchder mwyaf i flaen llafn o 225m ac wedi ei leoli mewn dyfroedd Seisnig, er y byddai llwybr y cebl allforio alltraeth yn croesi i ddyfroedd tiriogaethol Cymru a byddai llwybr y cebl, glanfa a llwybr cebl ar y tir yn gorwedd o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Ddinbych.

2.3 Bydd glanfa'r cebl allforio wedi ei lleoli ar hyd o forlin rhwng y Rhyl a Phrestatyn; mae sawl lleoliad glanfa'n dal i gael eu fforio yn y cam yma, ond ym mha achos bynnag, bydd cebl tanddaear yn rhedeg o'r de i'r de-orllewin am oddeutu 11 km a bydd y Prosiect yn cysylltu â'r rhwydwaith trawsyriant trydan ehangach yn is-orsaf y Grid Cenedlaethol ym Modelwyddan (sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd) i'r de i Barc Busnes Llanelwy.

2.4 Byddai is-orsaf newydd ar y tir yn cael ei hadeiladu ar un o ddau leoliad potensial ar dir yn agos at Barc Busnes Llanelwy.

2.5 Bydd y Prosiect yn gofyn am y cydsyniadau cynllunio a datblygu canlynol:

- Gorchymyn Cydsyniad Datblygu dan y Ddeddf Gynllunio 2008 ar gyfer elfennau alltraeth y Prosiect sydd mewn dyfroedd Seisnig. Fe gaiff hyn ei archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio a chan yr Ysgrifennydd Gwladol y bydd y penderfyniad terfynol pa un ai i gymeradwyo'r cais ai peidio. Gellid ymgorffori trwydded forol dybiedig gan y Sefydliad Rheoli Morol yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

- Trwydded forol dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ar gyfer elfennau alltraeth y prosiect yn nyfroedd Cymru. Uned Gydsyniadau Morol Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod cydsynio perthnasol.

- Caniatâd cynllunio dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar gyfer elfennau alltraeth fydd yn pennu'r cais.

2.6 Bydd y Prosiect hefyd yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol yn ogystal ag asesiadau statudol eraill (e.e. Asesiad Priodol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) a bydd angen ystod o gydsyniadau a thrwyddedau ychwanegol (e.e. Trwydded echdynnu dŵr, trwydded rhywogaethau a warchodir, hysbysiad o waith stryd etc).

2.7 Yn unol â darpariaeth Adran 42 Deddf Gynllunio 2008, fe ddechreuodd ymgynghori cyn-ymgeisio â budd-ddeiliaid a'r cyhoedd ar Ebrill 16, 2012 a bydd yn diweddu ar Fehefin 1, 2012

2.8 Nodir na fydd y Cyngor yn derbyn ffi cynllunio ar gyfer cost ymateb i'r ymgynghoriad Adran 42, ond mae'n rhoi cyfle i'r Cyngor roi sylwadau ar y cynnig a sicrhau bod effeithiau lleol yn cael eu hystyried yn llawn.

2.9 Bydd budd-ddeiliaid eraill fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau'r cyhoedd hefyd yn cael y cyfle i roi sylwadau ar ddogfennau'r ymgynghoriad.

**3. DOGFENNAU YMGYNGHORI ADRAN 42**

3.1 Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar Adroddiad Technegol Gwybodaeth Amgylcheddol Cychwynnol. Pwrpas yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Cychwynnol ydi darparu gwybodaeth fanwl ar y prosiect a gosod allan drosolwg cychwynnol o'r ffordd y mae'r Asesiad Effaith Amgylcheddol yn dod yn ei flaen ac i nodi'r wybodaeth a gasglwyd a'r asesiadau a wnaethpwyd hyd yma.

3.2 Mae Crynodeb Annhechnegol yn cyd-fynd â'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Cychwynnol.

3.3 Gan nad ydi gosodiad terfynol y Prosiect wedi ei ddiffinio'n llawn yn y cam yma, mae proses yr Asesiad Effaith Amgylcheddol wedi ystyried y senario realistig waethaf o fewn cwmpas y dyluniad, h.y. y senario a ganiateir o fewn cwmpas diffiniedig y cynigion sydd â'r potensial o gael eu hadeiladu ac a fyddai'n arwain at lefelau gwaethaf yr effeithiau amgylcheddol niweidiol ar gyfer y sensitifrwydd hwnnw.

3.4 O ganlyniad i'r ymgynghoriad mae'r datblygwr (DONG Energy) yn ceisio cael sylwadau gan fudd-ddeiliaid a chymunedau ar y Prosiect, yn cynnwys, o ran y canlynol:

- Y Prosiect arfaethedig mewn perthynas â'r 'cwmpas dylunio' h.y. ystod o dyrbinau gwynt, sylfeini etc. sy'n cael eu hystyried;

- Perthnasedd yr effeithiau amgylcheddol sy'n cael eu hasesu o ran sensitifrwydd amrywiol ffisegol, biolegol a dynol i'r Prosiect;

- Graddfa'r ymgynghoriad a ymgymerwyd hyd yma ac, os yn ofynnol, beth ellid ei wneud i wella hyn;

- Swm yr adborth a dderbyniwyd a'r wybodaeth sydd ar gael o ran y Prosiect;

- Eglurder y broses o ymgeisio a'r gwahanol gyrff/sefydliadau y ceir y cydsyniadau/trwyddedau perthnasol drwyddyn nhw.

**4. YMATEB I'R YMGYNGHORIAD**

4.1 O fod wedi asesu'r cyflwyniad, mae Swyddogion wedi drafftio ymateb i'r ymgynghoriad ac mae wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

4.2 Gan y byddai'r fferm wynt ar y môr bellter sylweddol o forlin Sir Ddinbych (bydd y tyrbin agosaf dros 15km o'r Ganolfan Nofa ym Mhrestatyn), mae Swyddogion yn teimlo y bydd y gwaith alltraeth ag effaith cyfyngedig ar y Sir; felly mae sylwadau wedi canolbwyntio ar y gwaith ar y tir.

4.3 Nid yw'r ymateb i'r ymgynghoriad yn ffurfio barn ar y datblygiad ond yn hytrach yn cymryd ffurf arsylwadau sy'n cyfeirio at y penodau perthnasol yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Cychwynnol.

4.4 Mae Swyddogion wedi ymgynghori â chydweithwyr mewn adrannau perthnasol eraill o'r Cyngor, ac fe dderbyniwyd sylwadau gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor, Swyddog Technegol Diogelwch y Cyhoedd a'r Uwch Beiriannydd Priffyrdd, sydd wedi hysbysu'r ymateb i'r ymgynghoriad; teimla Swyddogion yn barchus fod hyn yn ymateb digonol yn y cam yma.

4.4 Gan y bydd y gwaith ar y tir yn destun cais cynllunio, mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn cynnwys cafeat o fewn y rhagair i egluro fod sylwadau'n cael eu rhoi heb ragfarn ac nad ydyn nhw'n ffurfio penderfyniad ffurfiol dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Fe wnaiff y Cyngor felly arddel yr hawl i asesu'r gwaith ar y tir yn llawn yng ngham y cais cynllunio.

4.5 Gallai methu â chyflwyno ymateb i ymgynghoriad i DONG Energy olygu bod materion allweddol yn cael eu hesgeuluso ac fe allai hynny olygu oedi yng ngham y cais cynllunio.

**4. ARGYMHELLION**

4.1 Mae Aelodau'n cytuno i'r ymateb i'r ymgynghoriad sydd wedi ei atodi yn Atodiad 2 gael ei gyflwyno i DONG Energy fel ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad ffurfiol cyn-ymgeisio, er mwyn cyfarfod â'r graddfeydd amser a gyfarwyddwyd gan y datblygwr (1 Mehefin 2012).

**GRAHAM H. BOASE PENNAETH CYNLLUNIO, ADFYWIO A GWASANAETHAU RHEOLEIDDIOL**